



Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2017/18

Crynodeb Gweithredol a Chynllun Gweithredu

Rhagfyr 2018

I gael fersiwn lawn o'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol ebostiwch quality@caerdydd.ac.uk

Tîm Ansawdd a Safonau

Y Gofrestrfa

Gwasanaethau Academaidd a Chefnogi Myfyrwyr

Prifysgol Caerdydd

ADRODDIAD ANSAWDD BLYNYDDOL 2017/18

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol yn rhoi trosolwg cyfannol o systemau rheoli ansawdd academiaidd y Brifysgol yn ystod sesiwn academiaidd 2017/18. Mae'r adroddiad yn ystyried holl elfennau'r system ansawdd academiaidd, gan gynnwys gweithgareddau sicrwydd ansawdd, gwella, asesu a derbyn myfyrwyr ac mae'n cadarnhau bod yr holl brosesau a'r gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod gweithgaredd gwella yn ymateb i adborth a gofynion allanol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi statws asesu risg a naratif ar gyfer pob maes gweithgaredd y gall y Cyngor roi sicrwydd i CCAUC yn ei gylch o ran diwallu ei gyfrifoldebau o dan [Ddatganiadau Sicrhau Ansawdd ar gyfer Cyrff Llywodraethol Sefydliadau a Reoleiddir](#) a'r [Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru](#).

Statws Asesu Risg

Mae dau faes (a ddangosir yn Nhabl 1) wedi'u nodi â 'statws coch' asesu risg, sy'n arwydd o faterion sy'n peri pryder difrifol: asesiad ac adborth (Adran 5); a gwallau mewn papurau arholiad (Adran 6).

Mae'r meysydd canlynol wedi newid statws asesu risg:

- Derbyn myfyrwyr: 'ambr' i 'wyrdd,' sy'n adlewyrchu'r ffaith bod cadarnhau, clirio ac addasu wedi'u cyflawni'n llwyddiannus yn ystod haf 2018, a chynnydd y rhaglen Derbyn Dewis Cyntaf wrth broffesiynoli gweithgaredd derbyn myfyrwyr ymhellach;
- Adolygu a Gwella Blynyddol: 'gwyrdd' i 'ambr' oherwydd y bu oedi wrth gwblhau'r adolygiad o'r broses;
- Cyhoeddi canlyniadau: 'coch' i 'ambr,' gan adlewyrchu'r gwelliant sylweddol wrth gyhoeddi canlyniadau i fyfyrwyr mewn modd amserol yn 2017/18, a'r camau pellach sydd wedi'u cynllunio er mwyn cynnal y gwelliant hwn;
- Apeliadau academiaidd: 'coch' i 'ambr,' yn adlewyrchu gwelliannau i'r broses a'r amser a gymerir i ystyried apeliadau academiaidd yn 2017/18 a'r camau pellach sydd wedi'u cynllunio er mwyn cynnal y gwelliant hwn;

Adran 1: Y cyd-destun allanol ar gyfer ansawdd a safonau

Mae tirwedd Addysg Uwch yng Nghymru a'r DU yn parhau i newid yn gyflym yn 2017/18. Yn ogystal â'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan yr *Office for Students* (OfS) yn Lloegr, cynhaliwyd nifer o adolygiadau ac ymgynghoriadau allanol yn benodol ynghylch Cymru o ran System Addysg Ôl-orfodol ddiwygiedig i Gymru, rhoi'r Fframwaith Asesu Ansawdd ar waith yng Nghymru, a chyhoeddi Côt Ansawdd diwygiedig y DU. Mae deilliannau'r holl ymgynghoriadau'n cael eu monitro er mwyn mesur yr effaith debygol ar bolisiau a phrosesau'r Brifysgol a llywio'r paratodau ar gyfer Adolygu Gwella Ansawdd y Brifysgol, sy'n cael ei gynnal yn sesiwn academiaidd 2019/20. Mewn ymateb i ddatblygiadau o ran y TEF, ac er mwyn cefnogi'r Brifysgol wrth baratoi ar gyfer TEF ar sail pwnc, a TEF sefydliadol yn y dyfodol, sefydlwyd Grŵp Llywio.

Ym mis Hydref 2018, mae CCAUC yn cynnal ei Ymweliad Sicrwydd bob Tair Blynedd yn y Brifysgol, gan gynnal cyfweiliadau dros ddwy gyfres o ymweliadau a chanolbwyntio ar weithgaredd ar gyfer gwella, profiad myfyrwyr, a sicrhau ansawdd yn y Brifysgol. Bydd y Cyngor yn ystyried adroddiad CCAUC.

Ceir cadarnhad bod y Byrddau Arholi ac arholwyr allanol wedi rhoi sicrwydd ynghylch safon y dyfarniadau, oherwydd ei bod yn ofynnol i'r Brifysgol amrywio'r trefniadau ar gyfer cynnal ac asesu rhaglenni mewn ymateb i weithredu diwydiannol UCU ym misoedd Chwefror a Mawrth 2018. Blaenoriaeth y Brifysgol oedd tarfu cyn lleied â phosibl ar fyfyrwyr a gwneud yn siŵr bod myfyrwyr yn cael y cyfle i ddangos eu bod wedi cyflawni'r rhaglen, a deilliannau dysgu'r modiwl.

Adran 2: Rheoliadau Academaidd

Mae adolygiad cynhwysfawr o reoliadau academaidd y Brifysgol yn cael ei gynnal, gyda'r nod o ailysgrifennu'r rheoliadau i fynd i'r afael ag anawsterau hygyrchedd ac eglurder. Ar ôl ymgynghori â staff a myfyrwyr, gofynnir i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau newydd er mwyn eu rhoi ar waith ym mlwyddyn academaidd 2019/20.

Adran 3: Desg Derbyn Myfyrwyr

Yn sesiwn academaidd 2017/18, symudwyd Cadarnhau, Clirio ac Addasu (CCA) yn llwyddiannus i'r maes busnes fel arfer, cyflawnwyd Cam 1 o brosiect Dewis Cyntaf a chwblhawyd y gwaith paratoi ar gyfer Cam 2. Mae'r prosiect hwn yn canoli'r swyddogaeth derbyn myfyrwyr ac yn gwella profiad ymgeiswyr i wneud yn siŵr bod targedau ar gyfer ansawdd myfyrwyr, recriwtio, ac ehangu mynediad yn cael eu cyflawni. Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i ddadansoddi meysydd risg a amlygwyd drwy'r broses o ragfynegi nifer y myfyrwyr a dderbynnir ac adolygu mynediad yn y dyfodol, ac mae polisi cyd-destunol ar gyfer derbyn myfyrwyr yn cael ei ddatblygu.

Adran 4: Safonau Academaidd

Mae'r polisiâu a'r prosesau ar gyfer adolygu a chynnal ein safonau academaidd yn parhau'n gadarn fel yr adroddwyd drwy ein system arholi allanol ac adroddiadau a ddaeth i law gan gyrrff statudol a rheoleiddio proffesiynol. Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i wneud yn siŵr bod cwmpas a diben pob proses sy'n ymwneud ag ansawdd yn cyd-fynd yn llawn â gofynion allanol a'r blaenoriaethau sefydliadol a amlinellir yn adran 1.

Caiff yr adolygiad o gwmpas a diben prosesau Adolygiad Blynyddol a Gwelliant (ARE) ac Adolygiad Cyfnodol y Brifysgol eu cwblhau yn ystod 2018/19 i wneud yn siŵr bod y prosesau'n cyd-fynd â blaenoriaethau allanol a sefydliadol.

Cynhelir adolygiad cyfannol o ddyluniad, datblygiad a chymeradwyaeth rhaglenni i wneud yn siŵr bod y Brifysgol yn datblygu rhaglenni gradd sy'n strategol berthnasol, y gellir eu cymeradwyo mewn modd amserol, ac arwain ar brofiad ardderchog i fyfyrwyr.

Adran 5: Ymgysylltu â Myfyrwyr, a Phrofiad Myfyrwyr

Cymerwyd camau mewn ymateb i'r sgôr siomedig a geir o hyd yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr o ran asesiad ac adborth, ac mae camau pellach wedi'u cynllunio ar gyfer sesiwn 2018/19. Bydd y cynllun gweithredu, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr i fynd i'r afael â phryderon bod bodlonrwydd cyffredinol o ran nyrsio wedi bod yn 70% neu'n is ers dwy flynedd neu ragor, yn cael eu hystyried gan CCAUC yn ei gyfarfod ym mis Hydref 2018.

Mae camau wedi'u nodi ar gyfer maes Asesu ac Adborth y mae statws asesu risg 'coch' yn dal i berthyn iddynt. Mae ystod y camau yn ymwneud â chydweithio â myfyrwyr a rhoi 'Egwyddorion ac Ymrwymiad i Asesu' ar waith, sy'n cefnogi ysgolion i fynd i'r afael â nifer yr asesiadau, a gwella systemau peilot.

Sefydlwyd Canolfan Arloesedd a Chefnogaeth Addysg (CESI) er mwyn galluogi ein huchelgais academaidd a gyrru ein rhagoriaeth o ran dysgu ac addysgu ymlaen, gyda Chyfarwyddwr newydd yn dechrau ym mis Ionawr 2019.

Adran 6: Arholiadau, Byrddau Arholi, Apeliadau Academaidd, Ymarfer Annheg, Addasrwydd i Ymarfer, Achosion Disgyblaeth, Cwynion Myfyrwyr ac achosion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol

Mewn ymateb i'r asesiad risg ar gyfer gwallau mewn papurau arholiad, cyhoeddi canlyniadau i fyfyrwyr, apeliadau academaidd a bod cwynion myfyrwyr yn 'goch' yn adroddiad ansawdd blynyddol 2016/17, cymerwyd y camau canlynol:

- rhoddwyd camau sefydlogi rhoi ar waith ar gyfer 2017/18; a
- chyflogwyd sefydliad allanol, PA Consulting, i gynnal adolygiad annibynnol o'r meysydd gwasanaeth.

Cafodd y camau sefydlogi, a rhai camau brys a nodwyd gan PA Consulting, eu rhoi ar waith yn 2017/18 a chael effaith gadarnhaol ar gyhoeddi canlyniadau mewn modd amserol i fyfyrwyr, a'r amser a gymerir i gwblhau achosion o apeliadau academaidd. Mae angen gwella ymhellach a chymerir camau pellach yn 2018/19 ynghylch yr argymhellion o fewn adroddiad PA Consulting.

Nid yw cyfran y papurau arholiad sy'n cynnwys gwallau wedi gostwng ac o ganlyniad, mae'r asesiad risg yn parhau i fod yn 'goch.' Bydd y camau i'w cymryd i fynd i'r afael â'r pryder hwn yn cynnwys blaenoriaethu'r argymhellion yn adroddiad PA Consulting a'u rhoi ar waith, a chael cymorth allanol ar gyfer ysgolion sydd â'r gyfradd uchaf o wallau a'r niferoedd uchaf o fyfyrwyr er mwyn iddynt ganolbwyntio ar wella.

Gwahoddir y Senedd i roi gwybod i'r Cyngor y gall y Brifysgol fod yn hyderus ynghylch y canlynol:

- yr holl bolisiâu a phrosesau ansawdd a fu'n weithredol yn ystod cylch academaidd 2017/18;
- mae safon y dyfarniadau wedi'u gosod ar lefelau priodol a'u cynnal; ac
- mae gweithgareddau a chamau allweddol ar gyfer gwella ansawdd wedi'u nodi ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19.

Tabl 1: Crynodeb o Statws Asesu Risg Prosesau Ansawdd

Enw'r Gweithgaredd	Coch	Ambr	Gwyrdd	Newid ers 2016/17
Rheoliadau Academaidd		Ambr		=
Desg Derbyn Myfyrwyr			Gwyrdd	↑
Adolygu a Gwella Blynyddol		Ambr		↓
Arholi Allanol			Gwyrdd	=
Y Polisi Cymeradwyo Rhaglenni		Ambr		=
Fframwaith Polisi Darpariaeth ar y Cyd		Ambr		=
Adolygiad Cyfnodol		Ambr		=
Achredu gan Gyrff Proffesiynol			Gwyrdd	=
Profiad y Myfyrwyr		Ambr		=
Asesu ac Adborth	Coch			=
Gwallau Papurau Arholiadau	Coch			=
Cyhoeddi Canlyniadau		Ambr		↑
Apeliadau Academaidd, Ymarfer Annheg, Addasrwydd i Ymarfer, Addasrwydd i Astudio ac Achosion Disgyblu, Cwynion Myfyrwyr ac Achosion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol		Ambr		↑

CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU

Nodir y camau gweithredu sydd â statws risg 'coch' isod gan fod angen gweithredu sylweddol neu ar unwaith:

Cyfeirnod	Cam Gweithredu	Y Person sy'n Gyfrifol	Cwblhau erbyn	Statws Risg
Asesu ac Adborth				
5.5.1	Y Tîm Ymgysylltu â Myfyrwyr a Chymorth Addysgol i adolygu deilliannau'r Prosiect Partneriaeth o ran cefnogi asesiadau myfyrwyr a llythrennedd adborth, a chynnwys y wybodaeth yn Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2018/19		Adroddiad ar gynnydd yn Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2018/19	Coch
5.5.1	Y Tîm Ymgysylltu â Myfyrwyr a Chymorth Addysgol i gefnogi ysgolion ynghylch sut i roi 'Egwyddorion ac Ymrwymadau Asesu' ar waith yn ymarferol, yn benodol drwy ddatblygu rhaglenni newydd, a newid rhaglenni sy'n bodoli eisoes		Adroddiad ar gynnydd yn Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2018/19	Coch
5.5.1	Rhaglen Taith Myfyrwyr yn y Portffolio Addysg i ddatblygu cyfres o brosiectau i wella'r ffordd mae Ysgolion yn cynllunio a monitro asesu i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> cynnal cynllun peilot o'r offeryn Integreiddio Marciau Asesiadau, i ganiatáu trosglwyddo marciau'n awtomatig rhwng Dysgu Canolog a SIMS. 	Rhaglen Taith Myfyrwyr yn y Portffolio Addysg.	Adroddiad ar gynnydd yn Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2018/19	Coch
5.5.1	Y Tîm Ymgysylltu â Myfyrwyr a Chymorth Addysgol i edrych ar ddulliau newydd o gyfleu negeseuon allweddol ynghylch asesu a rhoi adborth i fyfyrwyr			

Gwallau Papurau Arholiadau				Coch
6.6.1	Paratoi cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion a flaenoriaethir sydd wedi'u hamlinellu yn adroddiad PA Consulting		Rhoi gwybod i'r Cyngor beth yw'r canfyddiadau a'r cynllun gweithredu	
6.6.1	Cael cymorth allanol i gynnal digwyddiad gwella'n gyflym sy'n canolbwyntio ar ysgolion gyda'r cyfraddau uchaf o wallau, a'r niferoedd mwyaf o fyfyrwyr yr effeithiwyd arnynt.		Rhoi gwybod i'r Cyngor beth yw'r canfyddiadau a'r cynllun gweithredu	
6.6.1	Casglu data a mynd i'r afael â'r hyn sy'n gyfrifol am y ffaith nad yw myfyrwyr yn cael y wybodaeth gywir ar ddechrau arholiad.		Rhoi gwybod i'r Cyngor beth yw'r canfyddiadau a'r cynllun gweithredu	